O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 16 (Cy. 9)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42 (Earlswood), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Chaniatáu Traffig ar y Lleiniau Caled) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *12 Ionawr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Drafford Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafford") wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu ganiatáu traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42 (Earlswood), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed) 2011.

**2.** —(1) yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 12 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r draffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, bydd y lleiniau caled wrth ochr y cerbytffyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ar gael i'w defnyddio fel lonydd i draffig.

**5.** Dim ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato ar waith y bydd darpariaethau erthygl 3 a 4 yn gymwys.

**6.** Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982**(3)**, a darpariaethau Rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau wedi eu hatal i'r graddau y maent yn gymwys i'r llain galed sy'n cyffinio â'r darnau o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a'r gorllewin i'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 a chyfarwyddir traffig i defnyddio'r llain galed benodedig.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 5 Ionawr 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(3)** O.S. 1982/1163

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41 (Pentyla) i drwyniad ffisegol y ffordd ymuno wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood) i drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41 (Pentyla).

Hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood).

### ATODLEN 2
### Caniatáu Traffig ar y Lleiniau Caled

Y darn hwnnw o'r llain galed sy'n gyfagos i'r gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 700 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 42 (Earlswood) hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth y cyfryw gyffordd.

Y darn hwnnw o'r llain galed sy'n gyfagos i'r gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42 (Earlswood) hyd at bwynt 1050 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth y cyfryw gyffordd.